Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Codau diogelu dŵr daearar gyfer Cymru

Dip defaid

Chwefror 2017

2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30608 ISBN Digidol: 978 1 4734 8364 4

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Derbyn tystysgrif o gymhwysedd

3. Derbyn trwydded amgylcheddol

4. Cyn i chi ddipio defaid

5. Wrth ddipio defaid

6. Ar ôl dipio defaid

7. Ymdrin â dip gwastraff

8. Cadw cofnodion

9. Argyfyngau

1. Cyflwyniad

Mae dŵr daear wedi ei leoli o dan wyneb y ddaear. Os byddwch yn defnyddio neu'n rhyddhau dip defaid gwenwynig yn ddiofal ar eich tir, gallai lygru dŵr daear. Gall dŵr daear llygredig ddraenio i ffynonellau dŵr yfed, fel tyllau turio, ffynhonnau, pistylloedd a nentydd, a'u halogi.

Gallwch leihau'r perygl o achosi llygredd dŵr daear trwy ddilyn y cod ymarfer hwn.

Gallech gael eich carcharu a derbyn dirwy ddiderfyn os byddwch yn:

- gwasgaru dip gwastraff ar dir heb drwydded amgylcheddol
- caniatau i sylweddau peryglus lifo i ddŵr daear
- gwasgaru llygryddion nad ydynt yn beryglus (e.e. o ddipiau from purl or bloom dips)

Trwy ddefnyddio'r cod hwn, byddwch yn gallu dangos eich bod wedi cymryd camau i osgoi llygredd a'ch bod yn cydymffurfio â'ch gofynion cyfreithiol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'n rhaid i chi hefyd ddilyn canllawiau a deddfau perthnasol fel y rheoliadau iechyd a diogelwch.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried pa un a wnaethoch ddilyn neu a ydych yn debygol o ddilyn y cod wrth benderfynu a ddylai gyflwyno hysbysiad i chi o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Gall hysbysiadau o'r fath gynnwys y gofyniad i chi gael trwydded, neu i atal rhag defnyddio neu storio dip defaid ar y safle. Mae methiant i gydymffurfio â hysbysiad hefyd yn drosedd.

2. Derbyn tystysgrif o gymhwysedd

Mae'n rhaid i chi gael **tystysgrif o gymhwysedd**[1] i brynu dip defaid neu i ymgymryd â dipio. Byddwch yn sefyll prawf cyfrifiadurol, a cheir prawf ymarferol dewisol. Gallech gael eich carcharu a'ch dirwyo hyd at £5,000 os byddwch yn dipio defaid heb dystysgrif o gymhwysedd.

Heb y dystysgrif, gallwch helpu rhywun arall, y mae'n rhaid iddo feddu ar y dystysgrif, gyda dipio, ond ni allwch ei wneud ar eich pen eich hun na phrynu'r dip.

[1] https://www.nptc.org.uk/qualificationschemedetail.aspx?id=267

3. Derbyn trwydded amgylcheddol

Mae'n rhaid i chi wneud cais am **drwydded amgylcheddol**[2] os ydych yn bwriadu gollwng dip defaid gwastraff ar y ddaear, e.e. trwy wasgaru ar y tir.

Gall gymryd hyd at 4 mis i dderbyn eich trwydded.

Os ydych yn bwriadu trin dip organoffosffad eich hun gydag ensym dirywio, bydd angen i chi gael **eithriad gwastraff T27**[3] yn ogystal â'ch trwydded amgylcheddol.

4. Cyn i chi ddipio defaid

Mae angen i chi baratoi'n gywir os ydych yn dymuno lleihau'r perygl llygredd i ddŵr daear - e.e. dewis y lleoliad a'r offer cywir.

Dewis lleoliad diogel

Dylai baddonau dipio, llociau draenio neu systemau dipio cludadwy fod o leiaf:

- 10m oddi wrth gyrsiau dŵr (e.e. nentydd) a gwlyptiroedd ymhellach i ffwrdd os yw'n bosibl
- 50m o unrhyw ffynnon, pistyll neu dwll turio
- 30m o gyrsiau dŵr sy'n draenio i afon neu wlyptir a ddynodwyd fel safle Ewropeaidd neu'n safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)

Dylech osgoi safleoedd mewn gorlifdir ag a lefel trwythiad uchel.

Mae'n rhaid i chi gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru os ydych yn bwriadu dipio ar dir sy'n rhan o safle gwarchodedig.

Ni ddylech ddefnyddio baddonau dipio na llociau draenio ar ffyrdd neu draciau, neu ar lethr sy'n draenio'n sut at gwrs dŵr.

[2] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

[3] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

Defnyddio'r offer cywir

Gwnewch yn siŵr:

- nad oes unrhyw ddifrod neu dyllau draenio yn eich baddon dipio a allai achosi gollyngiad
- na fydd eich baddon dipio yn caniatau i sblashis ddianc – gosodwch sgriniau ac ymylon sblashis os oes angen
- bod eich baddon dipio yn grwn neu'n betryal ac yn adeiledd un darn yn ddelfrydol, er mwyn lleihau'r perygl o ollyngiadau
- bod eich baddon dipio yn gallu gwrthsefyll UV, os yw wedi ei wneud o blastig

Dylai eich lloc draenio fod â:

- digon o le i ddal y llwyth defaid sy'n cael ei ddipio am o leiaf 10 munud ar ôl eu dipio
- lloriau wedi'u seilio'n briodol a llethrau sy'n rhan ohono i ganiatáu i ddip gormodol draenio yn ôl i'r baddon, yn hytrach na socian i mewn i'r ddaear, y pridd neu ddraen dŵr wyneb
- gorchudd neu do - i atal dŵr glaw ac ati rhag llifo iddo
- trefniant hidlo neu faglu i atal budreddi rhag draenio yn ôl i'r baddon ynghyd â'r dip

Dylai'r biben ddyfrhau yr ydych yn ei defnyddio i lenwi'r baddon:

- gael ei lleoli fel na ellir ei rhoi o dan ddŵr y dip, er mwyn osgoi llygru'r cyflenwad dŵr oherwydd ôl-seiffno dip
- fod â falf atal ddwbl fel nad yw'r dip yn cael ei ôl-seiffno
- gael ei defnyddio ar gyfer dipio defaid yn unig - byth ar gyfer cyflenwad dŵr domestig

Gwnewch yn siŵr bod eich cyfleusterau yn cydymffurfio â **Safon Prydain 5502**[4]

[4] http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=000000000030262061

Prynu a chludo dip crynodedig

Prynwch y canlynol yn unig:

- dip crynodedig wedi ei awdurdodi gan y **Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol**[5]
- cymaint ag sydd ei angen arnoch ar gyfer pob tymor dipio, fel nad oes rhaid i chi ei storio am gyfnodau hir, sy'n cynyddu'r perygl o ollyngiadau a llygredd

Wrth gludo dip crynodedig, gwnewch yn siŵr:

- bod cynwysyddion yn ddiogel ac na ellir eu tyllu
- bod cynwysyddion a ddefnyddir yn rhannol wedi eu cau'n ddiogel a'u cadw'n syth i atal gorlifo a bod unrhyw hambyrddau yn ddigon mawr i ddal hylif sydd wedi gorlifo

Storio dip crynodedig

Dylech ei storio yn ei gynhwysydd gwreiddiol a dylid ei labelu'n eglur. Cadwch y cynwysyddion oddi wrth ddraeniau, mewn hambwrdd neu fwnd diogel, i ddal unrhyw hylif sy'n gorlifo.

Storiwch gynwysyddion mewn:

- **storfa cemegau fferm wedi ei hadeiladu'n briodol**[6]
- cwpwrdd metel cymeradwy sy'n bodloni gofynion canllawiau'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**[7] ar storio plaladdwyr i ffermwyr

Mae'n rhaid i'ch storfa fod wedi ei chloi pan nad yw'n cae ei defnyddio.

Os bydd achosion o orlifo wrth storio'r hylif, dylech:

- arllwys yr hylif i'r baddon dipio

[5] http://www.vmd.defra.gov.uk/ProductInformationDatabase/Default.aspx

[6] http://www.hse.gov.uk/pubns/ais16.pdf

[7] http://www.hse.gov.uk/pubns/ais16.pdf

- ei amsugno gyda deunydd amsugno, gan ddod o hyd i **gludwr gwastraff cofrestredig**[8] i gael gwared ar y deunydd a'r dip

Bydd angen hefyd i chi allu storio'r "deunydd amsugno" mewn ffordd ddiogel i atal y dip rhag gollwng ac o bosibl llygru dŵr daear neu ddyfroedd wyneb.

Ni ddylech arllwys hylif sydd wedi gorlifo yn ôl i'r cynhwysydd gan y gallai hyn haologi eich dip. Ni ddylech arllwys dip sydd wedi gorlifo i ddraeniau, cyrsiau dŵr nac ar y ddaear.

5. Wrth ddipio defaid

Mae'n rhaid i chi gymryd gofal pan fyddwch yn chwistrellu, yn ysgeintio, yn rhoi cawod ac yn dipio defaid mewn baddon sefydlog neu system gludadwy. Mae'r rhan fwyaf o lygredd yn digwydd yn ystod neu'n syth ar ôl dipio.

> Peidiwch â dipio defaid os ydych yn disgwyl glaw o fewn 24 awr, oni bai fod gennych loches awyredig ar gyfer eich diadell. Gall glaw olchi dip na fu amser iddo sychu i ffwrdd

Gwirio'r safle

Gwiriwch fannau lle'r ydych yn bwriadu dipio defaid. Dewch o hyd i ffyrdd i leihau'r perygl o halogiad, e.e. o fannau draenio, lle'r ydych yn cadw defaid ar ôl eu dipio, nad ydynt yn cysylltu yn ôl â'r baddon dipio.

Dylech hefyd ystyried effaith bosibl ymddygiad anifeiliaid ar ôl dipio. Er enghraifft, gwnewch yn siŵr bod dŵr yfed ar gael fel nad yw defaid yn rhuthro i nentydd cyfagos lle gallai'r dip gael ei olchi i ffwrdd ac achosi llygredd.

Gwirio'r baddon ar gyfer gollyngiadau

- Gwiriwch y baddon gwag ar gyfer gollyngiadau. Seliwch unrhyw dyllau draenio yn barhaol os oes gennych faddon sy'n fodel hŷn.
- Llenwch y baddon gyda dŵr glân a'i adael dros nos, gan wneud yn siŵr na all glaw fynd i mewn iddo ac effeithio ar lefel y dŵr.
- Gwiriwch lefel y dŵr y diwrnod canlynol. Os nad yw wedi newid, gallwch ychwanegu'r dip crynodedig.

[8] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

- Os bydd lefel y dŵr wedi gostwng, dewch o hyd i unrhyw ollyngiadau a'u seillio'n barhaol.
- Ailadroddwch y drefn hon i wneud yn siŵr bod y gollyngiadau wedi eu selio.

Llenwi'r baddon

Dylech gymryd gofal i osgoi llygru dŵr daear neu ddŵr wyneb pan fyddwch yn llenwi'r baddon dipio. Gallai llygredd ddigwydd os byddwch:

- yn gadael i ddip orlifo o'r baddon neu ddefnyddio'r baddon yn y lle anghywir
- yn golchi'r jwg mesur allan yn ddiofal
- yn gadael dip crynodedig mewn cynwysyddion nad ydynt wedi eu cau'n ddiogel

Llenwch y baddon dipio yn y ffordd ganlynol:

- Llenwch y baddon gyda dŵr glân cyn i chi ychwanegu'r dip crynodedig, gan gymryd gofal i beidio â'i orlenwi. Defnyddiwch fesurydd dŵr neu gynhwysydd o gyfaint hysbys i'w lenwi fel eich bod yn siŵr o union gyfaint y baddon a faint o ddip crynodedig i'w ychwanegu.
- Arllwyswch a chymysgwch y dip crynodedig yn y man dipio fel bod unrhyw orlifo damweiniol yn cael ei reoli.
- Caewch gynhwysydd y dip ar ôl i chi orffen ei ddefnyddio gan ei storio mewn dysgl gwaelod gwastad neu hambwrdd.
- Golchwch unrhyw jygiau neu fesuryddion yr ydych wedi eu defnyddio i arllwys y dip crnodedig. Golchwch nhw dros y baddon 3 gwaith gyda dŵr glân (peidiwch â defnyddio dŵr o nant).
- Storiwch unrhyw gynwysyddion sydd eu hangen i ail-lenwi'r baddon mewn hambwrdd diferion a rhowch nhw lle na fyddant yn cael eu troi drosodd.

Cadw dŵr ffo yn y baddon

Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl ddŵr ffo yn aros yn y baddon dipio wrth ddipio ac ar ôl dipio. Cymerwch y camau canlynol:

- golchwch ddillad diogelwch ac esgidiau cyn i chi adael y lloc dipio, gan wneud yn siŵr bod yr holl ddŵr halogedig yn draenio i'r baddon
- gwnewch yn siŵr bod yr holl ddefaid wedi gorffwyso ymlaen llaw a chymerwch ofal pan fyddwch yn eu rhoi yn y baddon i osgoi sblashis

Trosglwyddo'r defaid i'r lloc draenio

Ar ôl dipio'r defaid:

- cadwch nhw yn y lloc draenio tan nad oes unrhyw arwyddion o doddiant dip yn diferu oddi ar eu cnuoedd (gallai hyn gymryd 10 munud neu fwy) – defnyddiwch lociau draenio dwbl os oes angen
- cadwch yr hidlydd neu'r fagl yn rhydd a chael gwared ar unrhyw ddeunydd gwastraff ynghyd â'r dip gwastraff

Dylai unrhyw un sy'n dipio (gan gynnwys contractwyr) gofio y bydd ochrau'r lloc draenio a byrddau sblashis wedi eu halogi gyda thoddiant dip.

Defnyddio dipiau cludadwy yn ddiogel

Ceir mwy o berygl o lygru dŵr daear o system ddipio gludadwy nag o ddip sefydlog. Gwiriwch yr holl offer yn drylwyr cyn ei ddefnyddio ar gyfer arwyddion o ddifrod, cyrydiad neu draul gormodol, ac i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn.

Dylech ddarganfod ai chi neu'r contractwr dipio cludadwy fydd yn cael gwared ar y dip gwastraff cyn defnyddio system ddipio gludadwy. Gwnewch yn siŵr bod gan unrhyw gontractwr sy'n cael gwared ar ddip **dwydded cludo gwastraff**[9] yn ogystal ag unrhyw **drwyddedau amgylcheddol**[10] ar gyfer eich gweithgareddau eich hun.

[9] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

[10] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

Gallech gael eich erlyn am ‘ganiatáu’n wybodus’ i ddip defaid gwastraff gael ei wasgaru ar dir (hy gweithgaredd dŵr daear) os bydd eich contractwr yn cael gwared ar y dip yn anghyfreithlon. Mae’n rhaid bod gennych drwydded os yw’r defaid yn cael eu dipio gan gontractwr a bod y dip gwastraff yn cael ei wasgaru ar eich tir fferm chi wedyn.

Os ydych yn defnyddio system gludadwy mewn buarth, gwnewch yn siŵr:

- bod yr holl ddraeniau wedi eu selio
- eich bod yn casglu unrhyw ddŵr draenio o ddefaid sy’n gadael y system yn y ffordd y byddech yn ei wneud ar gyfer baddon dipio sefydlog
- bod systemau casglu wedi eu dylunio a’u hadeiladu i gasglu’r holl ddip defaid gwastraff

Os ydych yn defnyddio system gludadwy mewn cae, gwnewch yn siŵr:

- nad oes unrhyw ffynhonnau, pistyllau neu dyllau turio yn cael eu defnyddio at unrhyw ddiben o fewn 50 metr
- nad oes unrhyw gyrsiau dŵr neu ddraeniau o fewn 10 metr
- nad oes unrhyw ddŵr daear o fewn 1 metr i wyneb y ddaear

Gwnewch yn siŵr:

- bod caeau yn wastad neu â llethr ysgafn ac â glaswelltir neu orchudd pori garw wedi ei hen sefydlu
- bod o leiaf dyfnder rhaw o uwchbridd mewn caeau, a dyfnder 0.5 metr arall o bridd
- bod caeau yn rhydd o lifogydd, llynnoedd arwyneb a dwrlenwi
- nad yw caeau wedi rhewi neu eu cywasgu
- bod caeau yn gallu dal digon o lociau draenio i gadw defaid tan fydd eu cnuoedd yn hollol sych ar ôl dipio – os oes angen, gallwch symud llociau draenio i atal caeau rhag cael eu socian gyda dip defaid

Ni ddylech symud system gludadwy sy’n cynnwys dip oni bai ei bod wedi ei dylunio i gael ei symud. Fodd bynnag, efallai y byddwch angen eich system i atal pystylad (cywasgu’r priddoedd a llystyfiant trwy sathru ac arwain at broblemau

dŵr ffo llygredig). Dylech wneud hyn os bydd pystylad yn cael gwared ar fwy na hanner y llystyfiant yn y mannau dal.

Dylech hefyd roi matiau diogelwch neu ddeunydd amsugno ar draws rampiau allanfeydd er mwyn helpu i leihau pystylad.

6. Ar ôl dipio defaid

Ar ôl i chi orffen dipio defaid, dylech eu rhyddhau o'r lloc draenio i fan dal. Gwnewch yn siŵr:

- nad yw eu cnudoedd yn diferu pan fyddant yn gadael y lloc draenio
- nad oes unrhyw ffynhonnau, pistyllau, cyrsiau dŵr, ffosydd neu wlyptiroedd yn y man dal
- eich bod yn darparu dŵr yfed mewn cafnau i'r defaid, neu ar ffurf arall, fel nad ydynt yn rhedeg i'r ffynhonnell ddŵr agosaf
- eich bod yn cadw'r defaid yn y man dal tan eu bod yn hollol sych

Os byddwch yn cymryd y defaid i'r cae i'w dal, cadwch nhw oddi wrth gyrsiau dŵr neu ffosydd wrth eu cludo.

Peidiwch â chludo defaid os ydynt yn wlyb, oni bai fod digon o ddeunydd amsugno yn y cerbyd neu'r trelar yr ydych yn ei ddefnyddio i lanhau'r holl ddiferion.

Golchwch eich cerbyd neu drelar wedyn, gan drin y dŵr golchi yn yr un ffordd â dip gwastraff. Dylech gael gwared ar y deunydd amsugno yn yr un ffordd ag unrhyw wastraff halogedig arall, hy defnyddio cludwr gwastraff.

Cadwch y defaid oddi wrth gyrsiau dŵr a gwlyptiroedd am gyhyd â phosibl ac am o leiaf pythefnos ar ôl eu dipio yn ddelfrydol, gan y gall cymysgedd dip dal i olchi allan o gnuoedd sych yn ystod y cyfnod hwn.

Gwagio'r baddon dipio

Gwagiwch y baddon dipio cyn gynted â phosibl ar ôl dipio i leihau'r perygl o ollyngiadau neu orlifo oherwydd glaw.

- Golchwch y baddon a'r llociau draenio ac unrhyw fannau cysylltiedig, gan roi'r holl ddŵr golchi yn y baddon dipio.
- Cymerwch unrhyw ddŵr golchi o'r baddon, e.e. trwy ei sugno i dancer sugno.
- Glanhewch unrhyw offer yr ydych wedi ei ddefnyddio i wagio'r baddon gan y bydd yn halogedig.
- Gorchuddiwch y baddon i atal glaw, pobl neu anifeiliaid rhag syrthio i mewn pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Peidiwch â defnyddio unrhyw bibellau yr ydych wedi eu defnyddio i wagio

baddon dipio ar gyfer cyflenwi dŵr.

Gorchuddiwch eich baddon dipio pan nad ydych yn ei ddefnyddio. Bydd hyn yn:

- atal glawiad rhag mynd i'r baddon a allai wanhau dip ac achosi i'r baddon orlifo
- lleihau'r perygl y bydd pobl neu anifeiliaid yn syrthio i mewn i'r baddon
- diogelu'r baddon, e.e. rhag difrod uwchfioled neu fandaliaeth

7. Ymdrin â dip gwastraff

Mae'n rhaid i chi storio, tri a chael gwared ar ddip gwastraff yn ofalus er mwyn osgoi perygl i ddŵr daear.

Storio dip gwastraff

Gallwch storio dip gwastraff os nad ydych yn gallu ei wasgaru ar unwaith neu os byddwch angen ei drin cyn cael gwared arno. Storiwch dip gwastraff:

- mewn cynwysyddion anhydraidd wedi eu dylunio i storio deunyddiau gwenwynig – nid mewn baddon dipio
- lle na fydd hylif sydd wedi gorlifo yn draenio neu'n llifo ar dir cyfagos – neu gwnewch yn siŵr bod cynwysyddion wedi eu byndio i reoli achosion o orlifo

Os ydych yn storio llawer iawn o ddip gwastraff (a ddefnyddir ar gyfer mwy nag un gweithrediad dipio), gwnewch yn siŵr bod eich system storio yn cydymffurfio â **Safon Prydain 5502**[11]

> Gallech dderbyn hysbysiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru os yw eich systemau storio yn fygythiad i ddŵr daear, e.e. os nad oes gennych drwydded, nad ydych yn cydymffurfio ag amodau trwydded neu fod perygl o ollyngiadau o'ch system storio oherwydd ei chyflwr.

Mae Taliadau Gwledig Cymru yn cynnal arolygiadau yn rhan o'i ddyletswyddau **asesu croes-gydymffurfiad**[12]. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynnal ei arolygiadau ei hun yn annibynnol ar Daliadau Gwledig Cymru.

Trin dip gwastraff

Gallwch ddadelfennu dip defaid gwastraff trwy ei gymysgu gyda thriniaeth gemegol ac yna ei adael am gyfnod penodedig o amser. Mae hyn yn helpu i leihau ei botensial llygru. Dylech drin dip gwastraff trwy:

- wirio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru bod eich dull trin arfaethedig yn addas
- dilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd ar gyfer y dip penodol yr ydych wedi ei ddefnyddio - peidiwch byth â thrin dip gan ddefnyddio dull sydd wedi ei ddylunio ar gyfer cynnyrch arall
- gwneud yn siŵr bod to yn gorchuddio'r baddon dipio pan fydd y driniaeth yn cael ei chyflawni

Cael gwared ar ddip gwastraff

Mae'n rhaid bod gennych **drwydded amgylcheddol**[13] i gael gwared ar ddip defaid sydd wedi ei drin neu heb ei drin ar dir.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau a nodir yn y drwydded. Bydd y drwydded fel rheol yn eich caniatau i wasgaru'r dip ar y safle lle gwnaed y dipio gennych neu gontractwr i wasgaru eich dip gwastraff ar ei safle.

---

[11] http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=000000000030262061

[12] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/rpwonline/?lang=cy

[13] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

Yn gyffredinol, mae'r drwydded yn caniatau'r rhyddhäwr (gweithredwr) i wasgaru'r dip gwastraff yn ddiogel ar y tir mewn ffordd a reolir. Yr asesiad risg penodol i'r safle sy'n penderfynu amodau'r drwydded a bydd yn datgan pa reolaethau sydd eu hangen.

Os ydych yn bwriadu cael gwared ar y dip oddi ar y safle, mae'n rhaid i chi ddefnyddio **cludwr gwastraff cofrestredig**[14] - eich cyfrifoldeb chi yw gwirio bod ganddo drwydded ddilys.

Gall eich cludwr gwastraff hefyd gymryd:

- dip defaid crynodedig dros ben
- dip sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn
- cynwysyddion gwag, os na allwch eu dychwelyd i'r gweithgynhyrchydd

Gwasgaru dip gwastraff

Cyn gwasgaru dip gwastraff, gwnewch yn siŵr nad yw'r tir:

- wedi ei ddwrlenwi neu wedi rhewi
- wedi hollti yn dilyn tywydd sych
- yn cynnwys draeniau tir a osodwyd yn ddiweddar neu a ôl-lenwyd

Os bydd amodau gwasgaru yn anaddas, storiwch y dip gwastraff tan y byddant yn gwella.

Gallwch gymysgu'r dip gwastraff gyda slyri neu ddŵr mewn tancer sugno i sicrhau'r gyfradd wasgaru gywir, fel y nodir yn eich trwydded amgylcheddol. 1 rhan o ddip gwastraff i 3 rhan o ddŵr neu slyri yw'r gyfradd wanhau fel rheol.

Os byddwch yn defnyddio dŵr:

- rhowch e yn y tancer cyn y dip
- peidiwch â'i gymryd yn uniongyrchol o ffynhonnell ddŵr (e.e. tap cyflenwi neu nant) gan ddefnyddio offer a allai fod yn halogedig

[14] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

Peidiwch â chymysgu'r dip gwastraff yn uniongyrchol â chynnwys storfa slyri, gan y byddai'n rhaid i chi drin yr holl slyri fel gwastraff halogedig a chael trwydded i gael gwared arno.

Gwiriwch amodau eich trwydded. Mae'n debygol o ganiatáu i'r bobl ganlynol gael gwared ar y dip defaid:

- chi, deiliad y drwydded
- eich staff, gyda'ch caniatâd
- contractwr sy'n trin eich defaid

Gwnewch yn siŵr eich bod chi neu eraill sy'n cael gwared ar ddip yn cydymffurfio â holl amodau eich trwydded, e.e. defnyddio offer priodol.

Os bydd eich contractwr yn bwriadu cael gwared ar ddip gwastraff oddi ar y safle, mae'n rhaid i chi wirio:

- ble y bydd yn cael gwared ar y dip yn y pen draw
- bod gan eich contractwr drwydded i gael gwared ar ddip gwastraff
- bod eich contractwr yn **gludwr gwastraff cofrestredig**[15]

Cyn i chi ddefnyddio contractwr, cytunwch ar bwy fydd yn gyfrifol am gael gwared ar ddip gwastraff yn ddiogel.

Cael gwared ar gynwysyddion

Peidiwch byth ag ailddefnyddio cynwysyddion sydd wedi dal dip defaid crynodedig.

- Golchwch y cynwysyddion 3 gwaith gyda dŵr glân pan fydd y dip yn cael ei baratoi fel bod yr hylif golchi yn gwanhau'r dip.
- Gwasgwch y cynwysyddion fel na ellir eu defnyddio eto.
- Ewch â'r cynwysyddion i safleoedd gwaredu cofrestredig neu gofynnwch i'ch awdurdod lleol eu casglu (efallai y bydd rhaid i chi dalu).

[15] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

- Storiwch ddip crynodedig dros ben yn ddiogel i'w ddefnyddio yn y dyfodol neu gofynnwch o weithredwr gwaredu gwastraff cofrestredig ei gymryd.

Efallai y byddwch yn gallu dychwelyd cynwysyddion sydd heb eu hagor i'ch cyflenwr.

8. Cadw cofnodion

Dylech gadw cofnodion o'ch gweithrediadau dipio defaid. Dylech gynnwys manylion:

- pryd ddigwyddodd y dipio
- ble y digwyddodd
- y cynnyrch dipio a ddefnyddiwyd gennych
- cyflenwr y dip
- yr anifeiliaid i chi eu trin

Bydd hon yn dystiolaeth ddefnyddiol os bydd digwyddiad llygredd ac yn eich caniatau i arsylwi unrhyw gyfnodau diddymu (pan na ellir anfon defaid i gael eu lladd oherwydd presenoldeb posibl dip defaid gweddilliol sy'n wenwynig) ar gyfer defaid sy'n mynd i'r lladd-dy.

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion o'ch gwarediad o ddip defaid er mwyn cydymffurfio â'ch trwydded, gan gynnwys mathau a chyfansymiau'r sylweddau i chi eu gwaredu, a'r dyddiadau a'r lleoliadau.

9. Argyfyngau

Os oes perygl bod dŵr daear wedi cael ei lygru, yna mae'n rhaid i chi gysylltu â **Cyfoeth Naturiol Cymru**[16] i hysbysu am ddigwyddiad amgylcheddol. Ffoniwch nhw ar **0300 065 3000**

Os bydd achos bach, wedi ei reoli o orlifo, efallai na fydd angen i chi hysbysu amdano, gan efallai y byddwch yn gallu osgoi llygredd eich hun.

Gorlifo wrth gludo

- Rheoli achosion o orlifo yn y cerbyd ac atal unrhyw ollyngiadau pellach.
- Amsugnwch yr hylif sydd wedi gorlifo gyda deunydd amsugno, fel llwch llif neu dywod, ac yna golchwch y cerbyd cyn gynted â phosibl.
- Gwaredwch ddeunydd amsugno halogedig ac unrhyw ddŵr golchi – peidiwch byth â'i olchi i lawer draen.
- Os bydd achos o orlifo yn digwydd y tu allan i'r man rheoli, ceir perygl posibl o lygredd dŵr ac mae'n rhaid i chi hysbysu am yr **achos ar unwaith**[16].

Gorlifo wrth gymysgu neu ddipio

- Dylech amsugno hylif sydd wedi gorlifo gyda deunydd amsugno, ac yna golchi'r man. Draeniwch y dŵr golchi i'r baddon dipio.
- Gwaredwch ddeunydd amsugno fel gwastraff halogedig.
- Os bydd defaid yn dianc o fan dal ac yn cyrraedd gwlyptir neu gwrs dŵr cyn i'r dip sychu, ewch i'w nôl ar unwaith a hysbyswch Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gallwch hefyd gysylltu â **Cyfoeth Naturiol Cymru**[17] os byddwch angen rhagor o gyngor ar sut i ddiogelu dŵr daear.

[16] https://naturalresources.wales/about-us/contact-us/report-an-incident/?lang=cy

[17] https://naturalresources.wales/about-us/contact-us?lang=cy